Ymgynghoriad

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru

Diogelu Dyfodol Cymru

Ymatebion erbyn 10 Mehefin 2020

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae’r ddogfen ymgynghori hon yn nodi ein hystyriaethau am ddyfodol buddsoddi rhanbarthol y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd, ac mae hyn wedi’i ddatblygu wrth gydweithio’n agos â’n partneriaid. Ynddi, mae cyfres o gynigion sy’n dweud sut bydd cyllid a ddaw gan Lywodraeth y DU, yn lle arian Ewrop, yn cael ei fuddsoddi mewn fframwaith cenedlaethol a fydd yn targedu ac yn rheoli buddsoddiadau yn rhanbarthol. Bydd hyn yn rhoi cyfle inni adeiladu ar waddol llwyddiannus rhaglenni cyllid Ewropeaidd a reolwyd yng Nghymru. |
| **Sut i ymateb** | Byddwn yn cynnal nifer o ddigwyddiadau ledled Cymru ar gyfer amrywiol ddinasyddion, rhanddeiliaid a chymunedau, a byddwn yn hyrwyddo’r digwyddiadau hyn yn eang. Bydd cyfleoedd i gymryd rhan ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd.<br><br>Mae nifer o gwestiynau yn y ddogfen ymgynghori hon. Mae modd ichi ymateb i’r cwestiynau hyn ac ychwanegu eich sylwadau drwy eu postio neu drwy eu hanfon dros e-bost i’n blwch post ymgynghoriad (Framework.RegionalInvestmentInWales@gov.wales) – neu gallwch ymateb drwy ein holiadur ar-lein. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Mae’r brif ddogfen ymgynghori, fersiwn hawdd ei deall, atodiadau’r ymgynghoriad, asesiad effaith, a dulliau ymateb ar gael ar wefan yr ymgynghoriad: https://gov.wales/framework-for-regional-investment-in-wales<br><br>Mae rhagor o ddogfennau sy’n ymwneud â gwaith Buddsoddi Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar gael yma:<br>https://llyw.cymru/buddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-ar-ol-brexit<br>https://llyw.cymru/grwp-llywio-buddsoddi-rhanbarthol-cymru<br>https://llyw.cymru/adolygiad-yr-oecd-o-wahanol-haenau-llywodraethu-trosolwg-or-prosiect |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth:<br>Framework.RegionalInvestmentInWales@gov.wales<br><br>WEFO – Tîm Buddsoddi Rhanbarthol<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhyd-y-car<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ |

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG39601

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru sy'n rheoli unrhyw ddata personol a roddwch chi fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol, a bydd hyn yn eu galluogi i ddefnyddio'r wybodaeth i wneud penderfyniadau am sut byddant yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu'n cynllunio ymgyngoriadau yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi mwy ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'n bosibl y bydd trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) yn cael ei gomisiynu i gyflawni'r gwaith hwn. Dim ond o dan gontract y bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a diogelu data personol.

I ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn ni hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych chi eisiau i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig pan fyddwch chi'n anfon eich ymateb. Byddwn yn eu golygu wedyn cyn eu cyhoeddi.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau a gyhoeddir eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata sydd gan Lywodraeth Cymru fel arall yn cael eu cadw am dair blynedd fan bellaf.

# Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru

## Ein Hymrwymiadau

**Un gronfa** a fydd ar gael ar sail amlflwydd, ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau hirdymor ar gyfer twf cynaliadwy a chynhwysol

**Fframwaith cenedlaethol i Gymru,** a fydd yn cael ei ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid

**Dirprwyo mwy o benderfyniadau** i gael eu gwneud ar lefel ranbarthol – gan weithio gyda phartneriaethau rhanbarthol newydd – ac ar lefel leol

**Integreiddio** â ffrydiau cyllid a pholisïau Llywodraeth Cymru, a chyfleoedd ehangach ar gyfer buddsoddi


**Cydweithio ar draws ffiniau** yng Nghymru a thu hwnt

Fframwaith **syml a hyblyg** sy'n sicrhau bod buddsoddiadau'n agored, yn deg ac yn dryloyw

Fframwaith cenedlaethol sy'n seiliedig ar **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Themâu llorweddol** – sef cydraddoldeb, datblygu cynaliadwy a'r iaith Gymraeg

## Y Model a gynigir ar gyfer Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol




## Beth rydym am ei gyflawni

### Hyrwyddo twf cynhwysol drwy:

1. Fusnesau cynhyrchiol a chystadleuol
2. Lleihau'r ffactorau sy'n arwain at anghydraddoldeb o ran incwm
3. Cefnogi'r broses o newid i economi di-garbon
4. Cymunedau iachach, tecach a mwy cynaliadwy

**Tabl Cynnwys**

Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru .......... 4

Rhagair y Gweinidog .......... 6

Cyd-destun a Gweledigaeth .......... 8

Ein Cynigion .......... 10

- Cefndir .......... 11
- Beth rydym am ei gyflawni .......... 11
- Beth fyddai hyn yn ei olygu yn ymarferol? .......... 13
- Sut rydym am gyrraedd y nod .......... 13
- Y model a gynigir .......... 15

Meysydd Blaenoriaeth Buddsoddi .......... 21

- Busnesau cynhyrchiol a chystadleuol .......... 21
- Lleihau’r ffactorau sy’n arwain at anghydraddoldeb o ran incwm .......... 23
- Cefnogi'r broses o newid i economi di-garbon .......... 25
- Cymunedau iachach, tecach a mwy cynaliadwy .......... 26

Rheolau Teg, Tryloyw a Chyson .......... 29

Gwerthuso a Dangos bod ein Canlyniadau’n cael eu Cyflawni .......... 31

Proses yr ymgynghoriad a sut i ymateb .......... 33

Geirfa .......... 34

## Rhagair y Gweinidog



Rydym wedi dysgu cymaint o'n partneriaethau yng Nghymru a chyda'r Undeb Ewropeaidd (UE). Ers i'r broses ddatganoli gychwyn ddau ddegawd yn ôl, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio â phartneriaid i ddarparu rhaglenni olynol sy'n cael eu hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd, gan ddwyn buddion sylweddol i'n busnesau, i'n pobl ac i'n cymunedau ledled Cymru.

Yn sgil y rhaglenni hyn, mae Llywodraeth Cymru a'r sector preifat, ymchwil ac academia, awdurdodau lleol, y trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus eraill wedi dod at ei gilydd, a chryfder y bartneriaeth hon yw'r gwaddol go iawn. Y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, bydd hyn yn rhoi sail gadarn inni adeiladu a sicrhau dyfodol llewyrchus i bawb yng Nghymru. Bydd hyn yn golygu y bydd ein partneriaethau yn gryfach byth ac yn fwy cynhwysol.

Yn yr ymgynghoriad hwn, mae ein strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb* a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* yn greiddiol i'n cynlluniau. Drwy fuddsoddi rhanbarthol rydym yn ymroi i gefnogi twf a chynwysoldeb ledled Cymru, gan roi pwyslais ar gyfuno buddsoddiadau mewn pobl a lleoedd lle mae angen buddsoddi.

Rwy'n ddiolchgar i'r holl randdeiliaid am eu hymrwymiad a'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma – mae hyn wedi helpu i lywio'r ymgynghoriad hwn. Mae Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol Cymru a gweithgorau technegol, sy'n cynnwys ystod eang o sectorau, yn chwarae rôl allweddol o ran dweud wrth Lywodraeth Cymru am yr hyn sydd wedi llwyddo a beth y gellir ei wneud yn well er mwyn ein dyfodol yn y tymor hir. Hefyd, rydym yn defnyddio'r hyn sy'n gweithio mewn gwledydd eraill drwy weithio â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

Mae gwendidau economaidd strwythurol mawr yn dal i fodoli mewn rhannau o Gymru, a bydd Cymru yn wynebu heriau sy'n ymwneud ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Ni fyddwn yn cael cyllid yn uniongyrchol gan yr Undeb Ewropeaidd mwyach ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol, ond mae buddsoddiad parhaus yn hollbwysig os ydym am adeiladu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud a pharhau i leihau'r anghydraddoldebau yn y DU sy'n dal i fodoli. Yn ogystal â'r heriau strwythurol inni, mae'r byd yn newid drwy'r amser ac mae angen i Gymru newid gyda hynny hefyd. Yn hollbwysig, mae angen buddsoddiadau er mwyn inni allu ymateb i'r cyfleoedd a gynigir yng Nghymru, yn y DU ac yn fyd-eang, a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn.

Ers y refferendwm yn 2016, rydym wedi dweud wrth Lywodraeth y DU dro ar ôl tro nad ydym am weld dim newid yn y swm o arian a ddaw na dim newid yn y rheolaeth sydd gennym dros wario'r arian hwnnw, wrth ymadael â'r

UE. Mae ein rhesymau dros hyn wedi'u nodi'n glir yn y dogfennau *Diogelu Dyfodol Cymru* a *Dyfodol Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru*. Rydym yn parhau i geisio gweithio'n adeiladol â Llywodraeth y DU ar yr agenda hollbwysig hon fel bod Llywodraeth Cymru yn cadw'r ymreolaeth, yn unol â'n setliad datganoli, i benderfynu ynghylch sut mae'r cyllid a gafodd ei addo gan Lywodraeth y DU yn cael ei wario yng Nghymru.

Mae angen pobl ar lawr gwlad i drosi'r polisi economaidd rhanbarthol yn arfer, ac mae gan Lywodraeth Cymru, wrth weithio gyda phartneriaid, 20 mlynedd o brofiad o reoli polisi rhanbarthol a chronfeydd rhanbarthol. Mae gennym y capasiti a phresenoldeb cryf ym mhob rhan o Gymru i roi buddsoddiadau ar waith yn effeithiol, ac mae gennym bartneriaethau cadarn, strategol a chynhwysol i adeiladu arnynt fel ein bod, gyda'n gilydd, yn gallu mynd i'r afael â'r heriau yn uniongyrchol a manteisio ar y cyfleoedd yn y dyfodol.

Wrth i rai o'r gofynion arbennig sy'n gysylltiedig â chyllid yr UE ddiflannu, mae dyfodol buddsoddiadau rhanbarthol yn rhoi cyfle inni weithio mewn ffordd wahanol a datblygu dulliau newydd dros amser, ond gan gadw'r arferion gorau.

I hyrwyddo twf a chynwysoldeb ledled Cymru, rydym yn cynnig fframwaith hyblyg a symlach sy'n canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth buddsoddi sy'n rhoi sylw i gynhyrchiant busnesau, cymunedau iachach a mwy cynaliadwy, economi di-garbon, a lleihau anghydraddoldeb o ran incwm i bobl. Rydym wedi ymroi hefyd i sicrhau bod y dulliau cyflawni a'r canlyniadau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol yn cael eu hintegreiddio'n llawn. Mae hyn yn cynnwys dirprwyo mwy i ranbarthau ac ardaloedd lleol oherwydd mai nhw, yn ein barn ni, sydd yn y sefyllfa orau i bennu eu hanghenion, cyfleoedd a chryfderau, a chreu partneriaethau newydd a deinamig a fydd yn gallu arloesi a chysylltu lleoedd a buddsoddiadau mewn ffyrdd newydd sy'n llawn dychymyg.

Er bod y DU yn gadael yr UE, mae ein hymrwymiad i Ewrop a phartneriaid Ewropeaidd yn dal i fod yn gryf ac yn ddigyfnewid. Mae ein cynigion yn adeiladu hefyd ar y manteision o weithio â phartneriaid yn Ewrop a thu hwnt i godi proffil Cymru a helpu i'n gwneud yn fwy cystadleuol ac yn adnabyddus ar lefel ryngwladol. Bydd integreiddio cydraddoldeb, cynaliadwyedd, prif ffrydio rhywedd a'r iaith Gymraeg yn hanfodol hefyd i'n dull o weithredu yn y dyfodol.

Rydym yn llawn sylweddoli'r her enfawr sydd yn ein hwynebu o ran newidiadau diwylliannol a newidiadau llywodraethu a'r ffyrdd newydd o weithio wrth inni ymadael â'r UE. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i bawb benderfynu pa ddulliau fyddai'n gweithio orau i Gymru. Mae gennyf ffydd yn y gefnogaeth a'r arbenigedd eang sydd gennym ymhlith ein partneriaid, ac edrychaf ymlaen at glywed eich barn. Bydd hyn yn ein helpu i ystyried beth a sut y byddwn yn cyflawni fel Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys fframwaith buddsoddi rhanbarthol newydd a fydd yn gweithio i bob rhan o Gymru.

**Jeremy Miles AC**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit**

## Cyd-destun a Gweledigaeth

Ers dau ddegawd, mae Llywodraeth Cymru, yn unol â'i chyfrifoldebau datganoledig dros ddatblygu economaidd rhanbarthol, wedi rhoi rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ar waith (arian Ewropeaidd o hyn ymlaen) ar y cyd i greu buddion sylweddol i gymunedau, pobl a busnesau ledled Cymru. Yn ein Papur Gwyn *Diogelu Dyfodol Cymru*[1] (Ionawr 2017) ac yn y ddogfen *Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit*[2] (Rhagfyr 2017), gwnaethom nodi pa mor bwysig oedd bod Cymru yn parhau i gael o leiaf yr un lefel o gyllid datganoledig ar gyfer buddsoddi rhanbarthol ag y mae'n ei chael ar hyn o bryd gan yr Undeb Ewropeaidd (UE). Gwnaethom dynnu sylw hefyd at bwysigrwydd partneriaeth â rhanddeiliaid ar draws Cymru i ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer datblygu economaidd sy'n canolbwyntio ar y rhanbarthau ar ôl Brexit, ac a fydd yn mynd i'r afael â heriau ac yn sbarduno cyfleoedd yng Nghymru yn greadigol a chydag uchelgais.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi ein hystyriaethau am ddyfodol buddsoddi rhanbarthol y tu allan i'r UE, ac mae hyn wedi'i ddatblygu a'i lywio wrth gydweithio'n agos â'n rhanddeiliaid. Ynddi, mae cyfres o gynigion sy'n dweud sut bydd cyllid a ddaw gan Lywodraeth y DU, yn lle arian Ewrop, yn cael ei fuddsoddi i adeiladu ar waddol llwyddiannus rhaglenni cyllid Ewropeaidd a reolwyd yng Nghymru, yn ogystal â chydnabod ein bod yn edrych tua'r dyfodol mewn ffordd fwy creadigol a gyda syniadau newydd. Bydd hyn yn rhoi cyfle inni sicrhau buddion gwell byth ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig, a galluogi rhanbarthau i ddatblygu eu cyfleoedd a'u cryfderau unigryw eu hunain.

I wneud hyn, rydym yn cynnig datblygu fframwaith cenedlaethol a fydd yn targedu ac yn rheoli buddsoddiadau yn ddaearyddol. Mae ein cynigion wedi'u seilio ar dystiolaeth o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r gwersi a ddysgwyd yn ystod 20 mlynedd o bolisi rhanbarthol yr UE, ac ar syniadau newydd a chynigion arloesol gan ein Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol Cymru[3] a thu hwnt.

Mae Cymru wedi newid yn gyflym yn ystod ei hanes diweddar. Ein gweledigaeth yw creu economi fodern, sy'n fwy technegol ac iddi fwy o werth, sy'n amrywiol ac yn gynhwysol. Rydym yn awyddus i wneud hyn drwy greu a chynnal gweithlu medrus, gan sicrhau gwaith teg i bobl sy'n byw ledled Cymru, mynd i'r afael â threchu tlodi, a chreu Cymru sy'n fwy cyfartal, llewyrchus a gwyrdd.

Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*[4] yn canolbwyntio ar y dyfodol, ac mae'r ddeddf hon yn greiddiol i'n cynlluniau. Bydd y camau a gymerwn yn gadael gwaddol cadarnhaol parhaol i'n pobl a'n cymunedau am ddegawdau i ddod. I gyflawni ein nodau rydym yn gofyn, drwy gyfrwng yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, sut dylem ni benderfynu a blaenoriaethu ynghylch buddsoddiadau y gellir eu cyflawni ar lefel genedlaethol. Byddwn hefyd yn gofyn beth yw'r ffordd orau i ranbarthau a

[1] https://llyw.cymru/diogelu-dyfodol-cymru
[2] https://llyw.cymru/buddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-ar-ol-brexit
[3] https://llyw.cymru/grwp-llywio-buddsoddi-rhanbarthol-cymru
[4] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted a https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-canllawiau

chymunedau lleol flaenoriaethu portffolios o fuddsoddiadau cydberthynol ar gyfer twf cynhwysol, drwy ddirprwyo mwy.

Wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, mae presenoldeb cryf yn rhyngwladol yn bwysicach nag erioed, ac mae ein cynigion yn dangos pwysigrwydd gweithio hefyd ar draws ffiniau ac yn rhyngwladol wrth fuddsoddi yn y dyfodol. Mae ein hymrwymiad i Ewrop a'n partneriaid Ewropeaidd yn dal yn gadarn ac yn ddigyfnewid. Ond rydym yn sylweddoli hefyd bod angen cyflwyno Cymru i gynulleidfa fwy eang byth i'n helpu i fod yn fwy cystadleuol ar raddfa fyd-eang. Rydym am sicrhau bod ein dulliau gweithredu wedi'u gwreiddio yn ein cymunedau, wedi'u siapio gan ein tirwedd a bod iddynt bwrpas cymdeithasol go iawn, ond gan edrych tuag allan, a bod yn agored i syniadau a chyfleoedd newydd – a bod yn barod i gystadlu ar lwyfan byd-eang.

Mae ein cynigion yn nodi sut gallwn ni sicrhau mwy o gysondeb strategol a gwerth am arian, gan gydnabod bod budd sylweddol i'w gael drwy gyd-gysylltu buddsoddiadau â'r ystod o ffrydiau cyllido sy'n cyfrannu at ddatblygu economaidd ar hyn o bryd, gan gynnwys cyllid o bob cwr o'r DU, y sector preifat, a'r sector cyhoeddus yn gyffredinol.

Wrth ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru, rydym am fanteisio ar y cyfle hwn i integreiddio a symleiddio ein trefniadau llywodraethu a chyflawni ar draws y llywodraeth a chyda'n partneriaid, gan ddefnyddio'r arferion gorau o'n profiad o reoli cyllid Ewropeaidd a meincnodi rhyngwladol, ond hefyd i bwyso a mesur y cyfleoedd sylweddol i symleiddio rheolau a chymhlethdod gweinyddol. Yn benodol, rydym yn gobeithio gweithredu mewn modd mwy cymesur sy'n seiliedig ar risg, gan gadw'r budd o gael fframwaith clir a thryloyw sy'n seiliedig ar reolau, ond sy'n sbarduno cyfleoedd am fwy o ddatblygiadau arloesol a rhagor o fuddsoddi sector preifat.

## Ein Cynigion

Mae Cymru yn wlad hyderus sy’n edrych tuag at y dyfodol. Rydym yn awyddus i ddatblygu ein heconomi drwy adeiladu ar y gallu cadarn sydd gennym mewn ymchwil ac arloesi, sefydlu, cychwyn a datblygu busnesau, rhoi’r seilwaith angenrheidiol a sgiliau ar waith ar draws y rhanbarthau, cyflymu'r broses inni newid i fod yn economi di-garbon, a gwneud hyn i gyd mewn ffordd deg a chynhwysol.

Am y rheswm hwn, rydym yn cynnig fod dyfodol **buddsoddi rhanbarthol yn cefnogi twf a chynwysoldeb** ledled Cymru, gyda phedwar maes blaenoriaeth buddsoddi sy’n ymwneud â'r canlynol:

- **Busnesau cynhyrchiol a chystadleuol**
- **Lleihau’r ffactorau sy’n arwain at anghydraddoldeb o ran incwm**
- **Cefnogi'r broses o newid i economi di-garbon**
- **Cymunedau iachach, tecach a mwy cynaliadwy**

Rydym yn cynnig dull a fydd yn:

- **Canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau** i sicrhau ein bod yn cael y mwyaf o’n buddsoddiadau ac yn helpu i greu’r Gymru y carem ei gweld, fel sydd wedi’i nodi yn ein Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- **Datganoli cyllid a phenderfyniadau** yn nes at y bobl a ddylai elwa ym mhob rhan o Gymru, gyda rhanbarthau’n blaenoriaethu portffolios o ymyriadau integredig i roi polisi economaidd ar waith sy’n canolbwyntio ar bobl ac ar leoedd mewn partneriaeth. Rydym am sicrhau ein bod yn cyd-fynd â chynlluniau Llywodraeth Cymru i gael mwy o gydweithio ar lefel ranbarthol gan gynnwys cyfrwng posibl y Cyd-bwyllgorau Corfforedig arfaethedig a gyflwynir gan y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)5, a’r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol sy’n cael eu llunio ar y cyd gan dimau’r Prif Swyddog Rhanbarthol a rhanddeiliaid ym mhob rhanbarth.
- **Integreiddio â’n polisïau a’r cyfleoedd pellach i fuddsoddi** yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol, gan gynnwys y Fargen Twf a’r Fargen Ddinesig.
- **Llunio un gronfa ar sail amlflwydd**, lle bydd cymunedau a phartneriaid ledled Cymru yn cael budd o’r gweithgareddau sy’n cyflawni blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yn ogystal â chynnig y gweithgareddau hynny hefyd.
- **Adeiladu ar y gwaith o integreiddio cydraddoldeb, datblygu cynaliadwy a’r iaith Gymraeg** (a elwir yn ‘themâu llorweddol’) yn ein buddsoddiadau.

[5] https://llyw.cymru/bil-llywodraeth-leol-ac-etholiadau-cymru

- **Annog cydweithio ar draws ffiniau**, yng Nghymru a thu hwnt, i gryfhau enw da Cymru fel gwlad arloesol, allblyg.
- **Sicrhau bod gan ardaloedd lleol a rhanbarthau y gallu a'r capasiti angenrheidiol** i sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl o fuddsoddiad economaidd rhanbarthol.
- **Creu fframwaith symlach a mwy cymesur** sy'n cynnal ein hymrwymiad i sicrhau bod buddsoddiadau yn agored, yn deg ac yn dryloyw.

## Cefndir

Pan oedd y DU yn aelod o'r UE, roedd Cymru yn cael mwy o gyllid yr Undeb Ewropeaidd na'r hyn a oedd wedi'i dalu i'r UE (h.y. roedd Cymru yn fuddiolwr net). Cafodd y cronfeydd arian hyn eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, sefydliadau'r sector preifat, y trydydd sector a sefydliadau eraill y sector cyhoeddus, ac fe lwyddodd y cronfeydd i gyflawni gryn dipyn. Gwnaethant greu a diogelu miloedd o swyddi a busnesau, yn ogystal â chefnogi buddsoddiadau mewn seilwaith, ymchwil, arloesi, a sgiliau, a helpu economi Cymru a'r farchnad lafur i ailgodi ar ôl y dirywiad diwydiannol. Roedd hyn hefyd wedi helpu i ddenu rhagor o fuddsoddiad sector cyhoeddus, sector preifat a'r trydydd sector. Gyda'r cyllid a ddaw gan Lywodraeth y DU yn lle arian yr UE, rydym yn awyddus i adeiladu ar yr hyn sydd wedi llwyddo yn y gorffennol ac ar y gwersi a ddysgwyd, er mwyn inni fynd i'r afael â heriau strwythurol hirdymor Cymru, helpu i leihau'r anghydraddoldeb hanesyddol, a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd economaidd yn y dyfodol.

## Beth rydym am ei gyflawni

I ddod yn lle'r cyllid Ewropeaidd yng Nghymru, rydym yn cynnig Fframwaith Cenedlaethol newydd a hyblyg ar gyfer buddsoddi economaidd rhanbarthol, gyda'r *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*, yn sail iddo.

Ein nod yw bod y Fframwaith hwn yn darparu buddsoddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn targedu'n fwy penodol. Bydd y buddsoddiadau hyn yn ennyn newid go iawn drwy gydnabod pwysigrwydd lle a phobl, ynghyd ag ymrwymiad i ddatganoli cyllid a'r broses gwneud penderfyniadau yn nes at y bobl a ddylai elwa.

Er mai'r ymrwymiad hwn i ddatganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau yw conglfaen *Cynllun Gweithredu ar yr Economi*[6] Llywodraeth Cymru, bydd y fframwaith hwn ar gyfer rheoli, cyd-gysylltu a gwerthuso buddsoddiadau economaidd rhanbarthol ledled Cymru yn cyd-fynd hefyd â pholisïau eraill i fanteisio ar dwf a threchu tlodi, gan

[6] https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi

gynnwys ein *Strategaeth Ryngwladol*[7]*, Fframwaith Datblygu Cenedlaethol*[8]*, Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru*[9]*, Cynllun Cyflogadwyedd*[10]*, Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*[11] a *Gwaith Teg Cymru*[12].

Ein nod yw rhoi'r Fframwaith hwn ar waith drwy wneud y canlynol:

- **Creu un gronfa** a fyddai'n lleihau'r baich gweinyddol ar sefydliadau sy'n awyddus i elwa o arian buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol, a hwyluso mwy o gyfleoedd i gyd-gysylltu buddsoddiadau a gweithgareddau.

- **Symud i ddefnyddio dull gweithredu yn seiliedig ar leoedd** sy'n adlewyrchu'r rhanbarthau a chynnig mwy o gyfleoedd i integreiddio â pholisïau Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag adlewyrchu'r rhyngddibyniaethau ar draws ffiniau, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

- **Sicrhau bod buddsoddiadau yn cyd-fynd ag arferion gorau Cymru, y DU ac arferion rhyngwladol** o ran archwilio, monitro a gwerthuso i leihau biwrocratiaeth i bartneriaid cyflenwi.

- **Symud y broses o flaenoriaethu a gwneud penderfyniadau perthnasol i'r rhanbarthau a'r cymunedau**, fel bod ganddynt rym i ddatblygu mwy ar eu cryfderau a'u cyfleoedd unigryw, a chreu buddion sy'n nes at bobl a lleoedd.

Nid yw manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu ffyrdd newydd a hyblyg o weithio y tu allan i fframwaith cyllido rheoleiddiol yr UE yn golygu ein bod yn cynnig cychwyn o'r newydd. Ceir elfennau allweddol o drefniadau cyllido blaenorol sy'n fuddiol, ac rydym yn awyddus i'w cadw ac i adeiladu arnynt, ar sail adborth gan ein rhanddeiliaid. Y rhain yw:

- **Cyllido amlflwydd**, sy'n cynnig sicrwydd tymor hwy i sefydliadau o ran cynllunio buddsoddiadau, a mwy o bwyslais ar sicrhau canlyniadau.

- **Cydraddoldeb, hawliau dynol a gwarchod yr amgylchedd**. Mae hyn wedi cael ei integreiddio mewn ymyriadau sydd wedi'u hariannu gydag arian Ewropeaidd yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, ac mae'r rhain yn allweddol i ymrwymiadau Llywodraeth Cymru ac i ymrwymiadau cyffredinol o ran sector cyhoeddus Cymru.

- **Sicrhau bod buddsoddiadau yn cyd-fynd â pholisi cyffredinol Llywodraeth Cymru** i sicrhau gwerth am arian a gwell cyd-gysylltu strategol.

---

[7] https://llyw.cymru/strategaeth-ryngwladol-i-gymru
[8] https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol
[9] https://llyw.cymru/buddsoddi-yn-y-seilwaith
[10] https://llyw.cymru/cynllun-cyflogadwyedd
[11] https://llyw.cymru/cynigion-diwygiedig-ar-gyfer-cefnogi-ffermwyr-cymru-ar-ol-brexit
[12] https://llyw.cymru/gwaith-teg-cymru

- **Cydweithio ar draws y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol**, oherwydd bydd y partneriaethau y byddwn yn eu creu yn ein helpu i ddod o hyd i atebion go iawn i'r heriau cyffredin rhyngom, a sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn bartner gweithredol uchel ei barch yn Ewrop ac ar lefel ryngwladol.

## Beth fyddai hyn yn ei olygu yn ymarferol?

Byddai ein cynigion yn ei gwneud yn llawer haws yn y dyfodol i gyd-gysylltu blaenoriaethau, gweithgareddau a buddsoddiadau mewn ffordd sydd wedi bod yn anodd weithiau o dan fframwaith rheoleiddiol yr UE.

Byddai ein cynigion yn cefnogi rhanbarthau a chymunedau ym mhob cwr o Gymru i ddatblygu cynlluniau tymor hwy a fyddai, er enghraifft, yn ceisio sbarduno sectorau'r economi ranbarthol sydd â'r potensial i dyfu. Hefyd, byddai ein cynigion yn cefnogi busnesau i ehangu a chreu swyddi, darparu pobl â'r sgiliau i wneud y swyddi, a mynd i'r afael â phroblemau ynghylch sut mae pobl yn gallu cael gafael ar y swyddi hynny.

Bydd ymyriadau cenedlaethol fel cynllunio ariannol a buddsoddi mewn cymorth i fusnesau a sgiliau, yn cefnogi buddsoddiadau rhanbarthol, a byddai modd addasu'r ymyriadau hyn i anghenion penodol y rhanbarth a'r sector. Hefyd, byddai'n haws yn y dyfodol i gysylltu gweithgareddau a chyllid o'r fath â buddsoddiadau eraill Llywodraeth Cymru a buddsoddiadau'r sector preifat a'r sector cyhoeddus mewn meysydd fel trafnidiaeth, datblygu a defnyddio tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd.

Bydd unrhyw ymrwymiadau i gyllido amlflwydd yn cael eu gwneud yn unol â'r rheolau cyllidol gan ystyried y cyd-destun ariannol ar y pryd.

## Sut rydym am gyrraedd y nod

### *Cyd-destun unigryw i Gymru*

Mae ein polisïau a'n model rhanbarthol yng Nghymru yn unigryw. Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* yn arloesol ac ar flaen y gad, a hon yw conglfaen polisi Llywodraeth Cymru. Mae *Ffyniant i Bawb*[13] yn nodi sut byddwn yn sicrhau twf cynhwysol a chynaliadwy a fydd yn sail i'r meysydd blaenoriaeth buddsoddi rydym yn awyddus i'w cefnogi yn ein Fframwaith Cenedlaethol.

Rydym wedi strwythuro ein Fframwaith ar sail egwyddorion cynllunio *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*, a'r ffyrdd o weithio yn yr egwyddor datblygu cynaliadwy ar gyfer cyrff cyhoeddus. Y rhain yw: integreiddio amcanion, cydweithio o fewn sefydliadau a rhyngddynt, gwneud penderfyniadau nad ydynt yn aberthu ein gallu i

[13] https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol

fodloni ein hanghenion yn y tymor hir, cynnwys dinasyddion yn y penderfyniadau sy'n berthnasol iddynt, ac atal problemau rhag codi neu waethygu.

Mae ein *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* yn cefnogi newid i bolisi economaidd yn seiliedig ar leoedd. Mae hefyd yn nodi'r cyfeiriad rydym am ei ddilyn drwy weithio â phob rhanbarth i bennu a sbarduno ei sectorau ei hun yn ôl ei gryfderau a'i gyfleoedd.

Ein nod yw creu cyfleoedd i arloesi a chreu atebion creadigol, gyda phartneriaid hen a newydd, i gyflawni ein hamcanion gyda'r buddsoddiad hwn. Os yw gweithgareddau eisoes yn cyflawni ein cyd-amcanion, ac eisoes yn cyd-fynd â'n hegwyddorion, nid ydym am weld y model newydd yn dadwreiddio'r buddsoddiadau gwerthfawr hynny.

***Pwysigrwydd partneriaeth a pholisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth***

Mae'r cynigion sydd yn yr ymgynghoriad hwn wedi cael eu datblygu mewn partneriaeth agos â rhanddeiliaid mewn amrywiol sectorau ar draws Cymru. Mae ffocws cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'n meysydd blaenoriaeth buddsoddi, ac mae'r ffocws hwnnw wedi'i sbarduno gan resymeg glir i sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian ac yn sicrhau'r effaith fwyaf i bobl, busnesau, a chymunedau ledled Cymru.

Mae Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol Cymru yn cael ei gadeirio gan Huw Irranca-Davies AC, ac mae'n cynnwys ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys busnesau, llywodraeth leol, sefydliadau academaidd, undebau llafur, a'r trydydd sector. Mae'r grŵp llywio wedi cwrdd chwe gwaith ers mis Ionawr 2019 i gasglu'r sylfaen dystiolaeth arwyddocaol, i lywio rhaglen gynhwysfawr o ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac i ddatblygu'r ymgynghoriad hwn. Mae pedwar is-grŵp arbenigol (Fframwaith Cenedlaethol, Gweithredu, Trawsffiniol a Rhyngwladol, a Monitro a Gwerthuso) wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd hefyd ers haf diwethaf i helpu i lywio'r gwaith, gan ddod â mwy na 100 o randdeiliaid ynghyd. (Mae rhagor o fanylion yn Atodiad A, sydd hefyd yn cynnwys cysylltiadau gwe i grynodeb o bapurau gwaith sydd wedi'u drafftio gan y pedwar is-grŵp arbenigol).

Hefyd, ers mis Ionawr 2019 rydym wedi bod yn gweithio'n agos â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) – sefydliad sy'n adnabyddus yn rhyngwladol – i gael cefnogaeth i'n huchelgais parhaus i feincnodi'n rhyngwladol ar ôl ymadael â'r UE a chael cyngor am lywodraethu a datblygu rhanbarthol yn y dyfodol. Bydd y prosiect dwy flynedd[14] wedi ei gwblhau erbyn diwedd eleni, a bydd yr adborth y mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi'i gael hyd yma gan lywodraeth a rhanddeiliaid ledled Cymru yn cyfrannu at yr ymgynghoriad hwn hefyd.

Mae'r **dadansoddiad economaidd-gymdeithasol** rydym wedi'i lunio (Atodiad B) yn gosod ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer pob un o'r pedwar maes blaenoriaeth buddsoddi a ddisgrifir isod.

[14] https://llyw.cymru/adolygiad-yr-oecd-o-wahanol-haenau-llywodraethu-trosolwg-or-prosiect

## Y model a gynigir

Ein nod yw creu fframwaith effeithiol yn seiliedig ar leoedd ar gyfer buddsoddi ar draws rhanbarthau Cymru i gyflawni twf cynhwysol, a dod â'r penderfyniadau'n nes at y bobl a ddylai elwa yn sgil ein buddsoddiadau.

Rydym yn cynnig ein bod yn cyflawni hyn fel a ganlyn:

- **Creu Fframwaith Cenedlaethol y cytunir arno yng Nghymru** sy'n adeiladu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac sy'n rhoi sylw i bedwar maes blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi (busnesau cynhyrchiol a chystadleuol, cydraddoldeb o ran incwm, economi di-garbon, a chymunedau iachach, tecach a mwy cynaliadwy)

- **Defnyddio Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol** sydd wedi'u cyd-gynllunio â rhanddeiliaid ym mhob rhanbarth a fydd yn ymgorffori cynlluniau lleol a buddsoddiadau rhanbarthol sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys y Fargen Twf a'r Fargen Ddinesig

- **Cyflwyno cynigion buddsoddi rhanbarthol a lleol** sy'n cyd-fynd â'r fframweithiau hynny, a **bodloni ein hamcanion strategol ar gyfer y pedwar maes blaenoriaeth buddsoddi.**

- **Cefnogi gweithio ar lefel ranbarthol gyda phecyn llywodraethu cenedlaethol**, wedi'i ddatblygu gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, a rhoi cefnogaeth ariannol i sicrhau bod y capasiti a'r gallu angenrheidiol ar gael ar lefelau lleol a rhanbarthol.

Drwy ein cynigion i gael fframwaith yn seiliedig ar leoedd a phobl, rydym am alluogi cymunedau o bob math i gyd-lunio atebion arloesol i'r heriau sy'n eu hwynebu. Byddai hyn yn cael ei ddefnyddio ar draws Cymru, mewn ardaloedd trefol, gwledig, ôl-ddiwydiannol ac arfordirol , gyda systemau monitro a gwerthuso a fydd wedi'u seilio ar gyflawni canlyniadau a fwriedir dros y tymor hir.

Mae datganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau yn golygu bod angen corff arnom ni sydd â'r gallu cyfreithiol a'r capasiti gweithredol i weithio ar y lefel ranbarthol. Yn unol â'n hymrwymiad i integreiddio â pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru, y cyfrwng posibl ar gyfer unrhyw gydweithio pellach ar y lefel hon yw'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a gynigiwyd yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ddiweddar. Bydd y Bil ar waith o fis Ebrill 2021 ymlaen gyda phwerau dros ddatblygu economaidd. Pe byddai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn fodd i gyflawni hynny, byddai angen iddynt ystyried y gofynion yn y Bil Partneriaethau Cymdeithasol (Cymru)[15] cyfredol a'r ymrwymiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid fel y rheini sydd wedi'u nodi yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*. Bydd unrhyw fodel cyflawni yn y dyfodol yn dal i fod ag ymrwymiad cryf i bartneriaethau strategol, cryf a chynhwysol â'n holl randdeiliaid ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol wrthi'n cael eu cyd-lunio â rhanddeiliaid ym mhob rhanbarth ar hyn o bryd, gan gyd-fynd â'r Fargen

[15] https://llyw.cymru/cymru-fwy-cyfartal-atgyfnerthu-partneriaeth-gymdeithasol-papur-gwyn

Ddinesig neu’r Fargen Twf, a’r fframweithiau hyn fydd yn pennu'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi ar lefel ranbarthol.

Y Fframwaith Cenedlaethol fydd sylfaen y broses hon. Bydd yn dod â chymysgedd o ddulliau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ynghyd i gydweithio a phennu cyfres o ganlyniadau cyffredin ar draws y pedwar maes blaenoriaeth buddsoddi, gyda dangosyddion perfformiad a thargedau perthnasol i fesur llwyddiant. Bydd yn defnyddio’r model Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau fel rhan o’n hymrwymiad i sicrhau buddsoddiadau sy’n rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau nag allbynnau.

### *Cydweithio rhwng rhanddeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol, lleol a chymunedol*

Rydym yn awyddus i greu model buddsoddi newydd sy’n canolbwyntio ar bobl a lleoedd, ac sy’n hyblyg fel ein bod yn gallu bod yn greadigol ac yn uchelgeisiol gyda’n nodau, ac addasu ac ymateb i gyfleoedd ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol, y DU ac yn rhyngwladol.

I wneud hyn, rydym yn awyddus i ddatblygu atebion arloesol a chyd-gysylltiedig i heriau a chyfleoedd wrth i’n rhanddeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol, lleol a chymunedol gydweithio. Wrth weithredu fel hyn, bydd y cyfrifoldeb dros rai penderfyniadau buddsoddi yn nes at y bobl a’r lleoedd dan sylw.

Bydd angen cadw rhai elfennau buddsoddi ar lefel genedlaethol er mwyn elwa o arbedion maint neu fanteisio ar arbenigedd technegol penodol, nad yw o reidrwydd ar gael ar draws pob rhanbarth. Mae rhai o’r prif enghreifftiau yn cynnwys seilwaith trafnidiaeth cenedlaethol, band eang, offerynnau ariannol, entrepreneuriaeth a chymorth i fusnesau, a’n hymyriadau sgiliau a chyflogadwyedd fel prentisiaethau.

Rydym yn cynnig hefyd bod y gymuned yn arwain rhai o’r gweithgareddau datblygu (gweler crynodeb o’r papur gwaith)[16] sy’n digwydd yn y gymuned ei hun, a bod rhanddeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol, lleol a chymunedol yn cyfathrebu â’i gilydd er mwyn i ymyriadau gael eu cynllunio a’u darparu gyda’r bobl a’r lleoedd a ddylai elwa mewn golwg. Mae hyn yn elfen bwysig o ddatblygu lleol, nid yn unig oherwydd ei fod yn ychwanegu at werth y buddsoddiad yn syth (h.y. canlyniadau sy’n gysylltiedig â phrosiect), ond hefyd yr effaith a gaiff o ran meithrin gallu yn lleol drwy gynyddu cyfalaf cymdeithasol a rhwydweithiau, datblygu trefn llywodraethu leol, a gwella’r broses o sicrhau canlyniadau. Mae hyn yn cael ei ddisgrifio isod hefyd.

[16] https://llyw.cymru/buddsoddiad-rhanbarthol-cynigion-ar-gyfer-datblygu-lleol-dan-arweiniad-y-gymuned

## Egwyddorion Model Datblygu Lleol dan arweiniad y Gymuned

| | |
|---|---|
| **Dull gweithredu lleol sy'n seiliedig ar ardal** | Mae atebion yn cael eu haddasu mewn ffordd hyblyg er mwyn diwallu cyfleoedd ac anghenion amrywiol – ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn. |
| **Cyd-gynhyrchu a dulliau gweithredu mewn partneriaeth** | Cydgyfrifoldeb a pherchnogaeth. Does dim un grŵp buddiant (e.e. sector cyhoeddus/sector preifat/trydydd sector) sy'n dominyddu. Mae'r bartneriaeth yn dod â gwybodaeth, egni ac adnoddau pobl leol at ei gilydd. |
| **Strategaethau amlsectoraidd integredig** | Mae camau gweithredu yn atgyfnerthu ei gilydd ac yn adeiladu ar gryfderau'r maes. Mae cysylltiadau'n cael eu gwella'n llorweddol â rhanddeiliaid eraill, ac yn fertigol â lefelau eraill mewn cadwyni cyflawni /cyflenwi. |
| **Arloesi** | Mewn cyd-destun lleol, mae'r dull yn arwain at ffyrdd newydd o feddwl ac o wneud pethau – marchnadoedd newydd, cynnyrch newydd, gwasanaethau, ffyrdd o weithio ac arloesi cymdeithasol. |
| **Rhwydweithio a chydweithio** | Mae cymunedau ac ardaloedd lleol yn rhwydweithio ac yn cydweithio, yn dysgu gan ei gilydd, yn rhannu arferion gorau ac yn dod o hyd i gynghreiriaid er mwyn cryfhau eu safle mewn cyd-destun byd-eang. |

Bydd sicrhau model sy'n seiliedig ar bartneriaeth strategol, gryf a chynhwysol i reoli buddsoddiadau rhanbarthol yn y dyfodol yn allweddol i wneud yn siŵr bod y rhyngweithio rhwng rhanddeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol, lleol a chymunedol yn deg. Nid ydym yn cynnig dull 'un ateb yn addas i bawb' ar gyfer ein model. Ond rydym am wneud yn siŵr bod cydweithio priodol yn digwydd, ei fod wedi'i deilwra ar gyfer anghenion y buddsoddiad ac nad yw'n creu biwrocratiaeth ddiangen.

Mae heriau go iawn yn bodoli wrth ddatblygu strwythurau ar gyfer y dyfodol sydd â'r capasiti i gyflawni'r hyn sydd ei angen arnom ni. Drwy ein partneriaeth â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, bydd pecyn yn cael ei ddatblygu i asesu trefniadau llywodraethu a helpu i lywio'r broses o ddirprwyo cyfrifoldebau penodol yn y dyfodol. Bydd hyn yn golygu bod angen defnyddio rhywfaint o'n buddsoddiad rhanbarthol i feithrin gallu er mwyn ymgymryd â'r swyddogaethau cyflawni angenrheidiol.

**Cwestiwn 1: Beth yw eich barn chi am fodel lle mae:**

- **cynlluniau strategol ar gyfer Cymru gyfan yn cael eu cydgysylltu ar lefel genedlaethol; ac**
- **mae cyrff rhanbarthol dynodedig yn cynllunio ac yn cyflwyno eu rhaglenni buddsoddi eu hunain, sy'n cyd-fynd â pholisïau ar lefel genedlaethol?**

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n cefnogi ein cynigion a fyddai'n golygu bod y gymuned yn arwain rhai buddsoddiadau sy'n digwydd yn y gymuned honno?**

### *Cyllid ad-daladwy*

Un o lwyddiannau mawr cyllid Ewropeaidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw defnyddio cyllid ad-daladwy i gyflawni canlyniadau cadarnhaol sy'n gost-effeithiol. Yn y gorffennol, mae arian buddsoddi rhanbarthol wedi cael ei ddefnyddio mewn cynlluniau cyllid ad-daladwy, gan greu gwasanaethau hunangynhaliol sydd yn werth dros £1 biliwn, ac wedi cael eu rhoi ar waith gan Fanc Datblygu Cymru i gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Ochr yn ochr â llwyddiant Banc Datblygu Cymru, mae ffurfiau eraill o gymorth ad-daladwy ar gael ar gyfer mentrau cymdeithasol, gan gynnwys y Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol. Mae cymorth ad-daladwy yn cynnig mwy o werth am arian cyhoeddus yn ogystal hefyd â chefnogi mentrau cymdeithasol i symud tuag at fodelau busnes mwy cynaliadwy, a sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer y tymor hir.

Mae ein model cyflawni yn y dyfodol yn awyddus i ddefnyddio cyllid ad-daladwy lle mae diffygion yn y farchnad wedi'u nodi. Gan fod angen cryn dipyn o arbenigedd technegol i roi offerynnau ariannol ar waith, a bod y gost o greu cronfeydd unigol yn sylweddol, rydym yn cynnig ei bod yn well cadw'r gwaith o'u gweinyddu ar lefel genedlaethol er mwyn manteisio'n llawn ar arbedion maint.

Byddai rhanbarthau'n cynnig cyfeiriad strategol o ran blaenoriaethu ymyriadau priodol sy'n bodloni anghenion eu hardal. Rydym yn cynnig cynnal asesiadau ar gyfer y meysydd blaenoriaeth a gynigir yn y rhaglen buddsoddi rhanbarthol i weld ymhle mae offerynnau ariannol yn hyfyw, a byddwn yn ceisio rhoi lle blaenllaw i ddefnyddio'r rhain. Rydym yn cydnabod nad yw model cwbl ad-daladwy yn bosibl ym mhob gweithgaredd. Pan fydd hynny'n wir, byddwn yn ceisio cyfuno grantiau gyda chyllid ad-daladwy a buddsoddiadau eraill ar y cyd er mwyn sicrhau bod yr adnodd buddsoddi rhanbarthol mor gynaliadwy ag y bo modd.

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno y dylem barhau i ddefnyddio mwy o gyllid ad-daladwy os yw hyn yn bosibl, ac os nad yw hyn yn bosibl, y dylid datblygu modelau cymorth cyfun sy'n defnyddio'r elfen ad-daladwy gymaint â phosibl?**

### *Pontio'n rhwydd*

Bydd yn bwysig gwneud yn siŵr ei bod mor rhwydd â phosibl symud o'r model cyllid Ewropeaidd presennol i fodel buddsoddi rhanbarthol newydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac ar leoedd. Er bod dal modd gwario cyllid Ewropeaidd ar ymyriadau y cytunwyd arnynt tan ddiwedd 2023, bydd cyllid Ewropeaidd yn cychwyn lleihau o fis Rhagfyr 2020 ymlaen.

I reoli'r cyfnod pontio hwn, rydym yn cynnig bod buddsoddiadau yn y dyfodol yn cael eu defnyddio i reoli prosiectau trosiannol sydd wedi cael eu blaenoriaethu ar lefel genedlaethol a thrwy'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol sy'n cael eu datblygu ar gyfer pob rhanbarth. Rydym hefyd yn cynnig bod buddsoddiadau yn ystod y cyfnod pontio hwn yn cynnig gallu a chapasiti ar y lefel leol, ranbarthol a

chenedlaethol er mwyn inni allu bod yn barod yn 2021.

**Cwestiwn 4: Beth yw eich barn chi am ein cynlluniau ar gyfer y cyfnod pontio?**

***Themâu llorweddol***

Yr hyn sy'n allweddol i lwyddiant y buddsoddiad yw cynnig cyfleoedd economaidd a thwf ar y lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, a sicrhau bod pob grŵp demograffig a chymdeithasol yn elwa'n deg ar y buddion.

Mae Cydraddoldeb, Datblygu Cynaliadwy, Prif ffrydio Rhywedd, a'r iaith Gymraeg wedi bod yn hanfodol i lwyddiant cyllid Ewropeaidd yng Nghymru, a byddwn yn adeiladu ar y gwaith o integreiddio'r rhain (a elwir yn themâu llorweddol) fel rhan o'n Fframwaith Cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys sut rydym yn ystyried y gwahanol elfennau o hunaniaeth unigolyn (e.e. rhywedd, hil, rhywioldeb, anabledd ac ati) sydd, gyda'i gilydd, yn gallu creu rhwystrau ychwanegol i'r unigolyn.

Rydym am sicrhau bod cynnydd yn y meysydd hyn yn parhau ar bob lefel gweithredu yn y dyfodol fel bod Llywodraeth Cymru yn bodloni ei blaenoriaethau ar gydraddoldeb, datblygu cynaliadwy, gwaith teg a phartneriaeth gymdeithasol. Gan ddefnyddio dull cyson ar draws Cymru i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud pethau yn y ffordd a ddaw â'r budd mwyaf i bobl, rydym yn cynnig ein bod yn cydlynu'r themâu hyn ar y lefel genedlaethol fel na fyddwn yn anghofio dim nac yn gadael dim ar ôl. Byddai modd gwella'r themâu llorweddol hyn drwy ychwanegu themâu y mae'r rhanbarthau'n eu hystyried yn flaenoriaethau trawsbynciol iddynt, a bydd hyn yn helpu i gyflwyno gweithgareddau sy'n unigryw ac yn fwy penodol.

**Cwestiwn 5: Beth yw'r ffordd orau inni integreiddio'r themâu llorweddol sef cydraddoldeb, datblygu cynaliadwy, prif ffrydio rhywedd a'r iaith Gymraeg mewn buddsoddiadau sy'n cael eu rhoi ar waith ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol?**

Yn ogystal â'r cwestiynau penodol ym mhob adran, byddem yn hoffi clywed eich barn am sut y bydd ein cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn eich barn chi, yn benodol o ran rhoi mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac atal y Gymraeg rhag cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn cynnwys yr effeithiau uniongyrchol, yn ogystal â sicrhau hefyd nad oes cyfleoedd yn cael eu colli i gynyddu effeithiau cadarnhaol ac atal unrhyw effeithiau andwyol.

**Cwestiwn 6: Beth yw'r ffordd orau inni gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy ein cynigion ar gyfer buddsoddi rhanbarthol, a sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

### *Gwaith trawsffiniol a rhyngwladol*

Un o elfennau mwyaf gwerthfawr cyllid Ewropeaidd yng Nghymru oedd ei allu i ddwyn partneriaid ynghyd ar draws gwledydd i gydweithio a denu cyllid a chyfleoedd. Mae ein *Strategaeth Ryngwladol* newydd yn ymrwymo i barhau i edrych tuag allan at Ewrop a thu hwnt, ond yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid gartref a thramor i godi proffil Cymru ar lefel ryngwladol i helpu i'n gwneud yn fwy cystadleuol ac yn adnabyddus i weddill y byd.

Pan ddaw cyfleoedd i'n partneriaid yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol yn y dyfodol, rydym am i'r cysylltiadau a'r strwythurau cyllido ein galluogi i gydweithio (mae rhagor o fanylion yn y crynodeb o'r papur gwaith)[17]. Rydym o'r farn fod cyfle hefyd i sicrhau newid pwysig yn y gwaith trawsffiniol a rhyngwladol a fydd yn cael ei alluogi gan fuddsoddi rhanbarthol drwy:

- fanteisio ar y rhyddid i gefnogi mwy o waith ar heriau a chyfleoedd cyffredin a chael mynediad at fwy o gyllid yn y DU, er enghraifft Cronfeydd Her y DU, Catapyltiau a Bargeinion Sector;
- annog rhanbarthau i gydweithio â'i gilydd ac ar draws ffiniau;
- cynyddu'r buddion sy'n cronni wrth ymgysylltu â rhwydweithiau a rhaglenni Ewropeaidd, er enghraifft Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, Horizon Europe, Erasmws+ ac Ewrop Greadigol; ac
- ehangu i bersbectif mwy byd-eang i sicrhau ein bod yn cael statws gwell yn y byd a gwneud y mwyaf o fudd y statws hwnnw, drwy bartneriaethau cryfach, mwy o fasnachu a mynediad at gyfleoedd cyllido.

Mae tair prif elfen i'r model a gynigwn:

- 'Cronfa Sbarduno Hyblyg' i Gymru i ganiatáu buddsoddiadau bach mewn cyfleoedd trawsffiniol a rhyngwladol ar draws sectorau, themâu ac ardaloedd daearyddol;
- dull 'Portffolio Integredig' ar draws y pedwar maes blaenoriaeth, gan gynnwys buddsoddi mewn gweithgareddau trawsffiniol a rhyngwladol penodol lle mae cyfiawnhad dros wneud hynny;
- cydgysylltu canolog ar lefel genedlaethol i fwrw ymlaen â'r broses o gyflwyno gweithgareddau trawsffiniol a rhyngwladol.

**Cwestiwn 7: Beth yw eich barn chi am y model cyflawni a gynigir i gryfhau partneriaethau, prosesau cydweithio a masnachu ar draws ffiniau, yn y DU a chyda phartneriaid rhyngwladol?**

[17] https://llyw.cymru/buddsoddiad-rhanbarthol-cynigion-ar-gyfer-gweithio-trawsffiniol-rhyngwladol

# Meysydd Blaenoriaeth Buddsoddi

Nod ein pedwar maes blaenoriaeth yw creu Cymru fwy llewyrchus, cyfartal a gwyrdd fel sydd wedi'i nodi yn y Rhaglen Lywodraethu ac ym mlaenoriaethau'r Prif Weinidog. Mae hyn yn cynnwys, yn benodol, cyflawni yn erbyn ein hamcanion llesiant[18], a chysoni hyn â strategaethau presennol Llywodraeth Cymru ac ychwanegu gwerth atynt. Rydym yn awyddus i alluogi rhanbarthau a chymunedau i ddatblygu eu portffolios eu hunain o gamau gweithredu sy'n cyd-fynd â'i gilydd er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau yn unol ag anghenion a chryfderau'r rhanbarthau a'r cymunedau.

Pwrpas yr amcanion strategol yw sicrhau bod buddsoddi rhanbarthol yn cyfrannu cymaint â phosibl at nodau llesiant Cymru. Rydym ni wedi pennu'r amcanion strategol, drwy weithio'n agos gyda rhanddeiliaid, ac mae'r amcanion wedi'u seilio ar yr hyn sy'n gweithio fel y gwelir yn y sylfaen dystiolaeth. Mae'r achos dros ymyrryd wedi'i nodi'n fwy manwl yn ein dadansoddiad economaidd-gymdeithasol (Atodiad B), sydd wedi bod yn sylfaen dystiolaeth allweddol inni ar gyfer ein hymyriadau, ochr yn ochr â'r holl waith gan bartneriaid yn y gweithgorau sy'n canolbwyntio ar bob maes.

Mae pwysigrwydd ac effaith drawsnewidiol unrhyw arloesi, ymchwil, technolegau (gan gynnwys digidol), entrepreneuriaeth, adnabod a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chynaliadwyedd yn themâu sy'n cydredeg drwy'r pedwar maes blaenoriaeth hyn. Mae pob un o'r blaenoriaethau yn ategu ei gilydd, er enghraifft, bydd sicrhau bod cymaint â phosibl o bobl mewn gwaith o ansawdd da yn helpu busnesau i ffynnu hefyd. Mae problemau cymhleth yn bodoli sy'n gofyn am amryw o atebion er mwyn eu datrys yn iawn, a chyfleoedd enfawr sy'n gofyn am gydweithio a gwaith integredig os ydym am fanteisio arnynt.

## Busnesau cynhyrchiol a chystadleuol

Ein nod yw adeiladu ar y llwyddiannau a gafwyd hyd yma er mwyn creu swyddi o ansawdd uchel ym mhob cwr o Gymru, drwy wneud busnesau a mentrau cymdeithasol o bob maint yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol. Rydym yn awyddus i hybu twf mewn ffordd gynaliadwy a chynhwysol drwy helpu entrepreneuriaid, busnesau newydd a busnesau sydd eisoes yn bodoli i fod yn fwy ffyniannus.

### *Y sefyllfa ar hyn o bryd*

Mae microfusnesau a busnesau bach yn arbennig wedi gweld twf mawr o ran cyflogaeth ers dros ddegawd. Wrth gymharu â gweddill y DU, mae'r gyfran a gyflogir gan ficrofusnesau a chwmnïau bach yn uwch yng Nghymru, ac rydym am i'r microfusnesau a'r cwmnïau bach hynny ddatblygu'n gwmnïau mawr a chanolig. Mae cwmnïau canolig eu maint yn perfformio'n eithaf da hefyd, gyda chynnydd o ran trosiant, cyflogaeth a nifer y cwmnïau. Mae gan Gymru nifer mawr o ficrofusnesau,

[18] https://llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-llywodraeth-cymru-2019

ond mae nifer y busnesau newydd sy’n gymharol i faint y boblogaeth yn is yng Nghymru nag yng ngweddill y DU.

Mae perfformiad gwael o ran cynhyrchiant wedi cael ei nodi fel problem sylweddol yn y DU, ac mae hynny’n deillio o ddiffyg buddsoddi mewn busnes, llai o arloesi, rheoli ansawdd yn wael, a lefelau sgiliau is. Ers yr argyfwng ariannol, mae twf cynhyrchiant dros y degawd diwethaf wedi bod yn wan iawn. Mae mwy a mwy o gwmnïau â lefelau cynhyrchiant isel, ac mae hynny’n arwain at gyfyngu cynhyrchiant yn gyffredinol a thanberfformiad cymharol mewn sectorau lle gellid disgwyl i’r lefelau cynhyrchiant fod yn uwch. Mae hefyd yn arafu’r gyfradd arloesi, ac yn rhwystro’r boblogaeth ehangach o gwmnïau rhag datblygu i’r un graddau â chwmnïau blaenllaw.

***Ein nod***

Rydym yn awyddus i gynyddu nifer a maint y mentrau a’r busnesau newydd (gan gynnwys gwasanaethau, busnesau cymdeithasol, a’r rheini sy’n rhan o’r economi sylfaenol) ledled Cymru mewn ffordd gynaliadwy – yn enwedig yn yr ardaloedd lle mae’r angen mwyaf – gan weithio ar draws y Llywodraeth i ddod o hyd i’r atebion mwyaf effeithiol, nid dim ond y rheini a ystyrir yn draddodiadol. Bydd hyn yn helpu i greu a chadw swyddi cynaliadwy o ansawdd da, a fydd yn cyfrannu at dwf economaidd a chynhyrchiant, ond at waith teg hefyd. Rydym hefyd am annog pobl i greu mwy o fentrau sy’n eiddo i bobl leol ac yn cyflogi staff lleol, a hybu cynaliadwyedd y mentrau hynny. Mae tystiolaeth yn dangos eu bod yn arwain at ganlyniadau buddiol o ran yr economi, a’u bod yn fwy tebygol o aros yng Nghymru.

Rydym hefyd am feithrin sector arloesi a phrifysgolion sy’n gadarn ac yn gystadleuol. Rydym yn awyddus i bob rhan o Gymru fanteisio ar y buddion a ddaw yn sgil hyn, gan adeiladu ar y ffordd lwyddiannus rydym yn defnyddio arbenigedd craff i ddod o hyd i feysydd ym mhob cwr o Gymru lle ceir mantais gymharol. Y bwriad gyda hyn fyddai denu mewnfuddsoddiad, cystadlu am gyllid ar gyfer gwaith ymchwil a sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu lledaenu fwyfwy ymhlith mentrau. Gwyddom fod busnesau’n fwy cynhyrchiol pan fyddant yn barod i fasnachu’n rhyngwladol, ac mae angen y cynhyrchiant hwnnw arnynt wrth iddynt ddechrau cystadlu mewn marchnadoedd rhyngwladol.

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn ychwanegu gwerth, ein nod fyddai targedu cefnogaeth yn yr ardaloedd hynny ac i’r mentrau hynny lle gwelir methiannau penodol o ran y farchnad, gan gydnabod bod gan bob ardal anghenion busnes gwahanol. Byddai’r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn blaenoriaethu ymyriadau penodol ym mhob rhanbarth, er mwyn adlewyrchu’r cyfleoedd a’r heriau sydd ar gael ym mhob ardal leol.

*Yr amcanion strategol a gynigir*

1. **Cefnogi'r gwaith o greu swyddi cynaliadwy o ansawdd da, a busnesau sy'n bodloni diffiniad Gwaith Teg fel sydd wedi'i nodi gan y Comisiwn Gwaith Teg.**

2. **Helpu i greu gweithluoedd medrus iawn ac sydd wedi'u hyfforddi'n dda, gan sicrhau bod busnesau mor gystadleuol â phosibl – yn rhyngwladol a gartref.**

3. **Cefnogi twf cynaliadwy a chynhwysol ac olyniaeth busnesau cynhenid yn ogystal â chadw'r busnesau hynny, gan gynnwys y rheini yn yr economi sylfaenol sy'n rhoi pwyslais penodol ar ddatblygu i fod yn gwmnïau cynhyrchiol canolig eu maint sydd â'u gwreiddiau yn eu cymunedau lleol.**

4. **Cynyddu'r capasiti ymchwil ac arloesi er mwyn i sefydliadau ymchwil allu denu mwy o gyllid i Gymru, a helpu busnesau i drosi arloesedd yn gynnyrch masnachol newydd a gwell.**

5. **Cyflwyno ffyrdd cynaliadwy o sicrhau bod busnesau yng Nghymru yn gallu cael gafael ar y cyllid sydd ei angen arnynt er mwyn ffynnu a datblygu yng Nghymru, a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd trawsffiniol a rhyngwladol.**

## Lleihau'r ffactorau sy'n arwain at anghydraddoldeb o ran incwm

Ein nod yw sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl mewn swyddi o ansawdd da lle maent yn iach ac yn ddiogel, gan ofalu bod hyn yn cael ei rannu'n deg ar draws ardaloedd daearyddol a demograffeg, yn enwedig ymysg grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Y rheswm dros hyn yw bod tystiolaeth, er enghraifft gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd[19], yn dangos bod anghydraddoldeb yn cael effaith negyddol ar dwf economaidd.

### *Y sefyllfa ar hyn o bryd*

O ganlyniad i gyfuniad o ffactorau – arloesi digidol, awtomatiaeth, datgarboneiddio, poblogaeth sy'n heneiddio fwyfwy, a'r DU yn ymadael â'r UE – bydd argaeledd a natur swyddi yn newid yng Nghymru.

Mae diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn dal yn ffactorau arwyddocaol sy'n achosi anghydraddoldeb, ac anabledd/salwch a gofalu am y teulu/cartref yw'r prif resymau nad yw oedolion yng Nghymru yn gweithio. Gall cyfnodau o anweithgarwch gael effaith negyddol ar bob math o ganlyniadau yn nes ymlaen mewn bywyd, ac maent yn niweidiol dros ben i bobl ifanc.

[19] http://www.oecd.org/els/soc/trends-in-income-inequality-and-its-impact-on-economic-growth-SEM-WP163.pdf

Mae pobl â sgiliau lefel uwch yn fwy tebygol o fod mewn gwaith, ac yn llai tebygol o wynebu tlodi. Mae unigolion di-waith sydd â chymwysterau Addysg Bellach is na Lefel 2 yn fwy tebygol o fod mewn swydd am gyfnod hir, o gael cyflog uwch ac o gynyddu eu cyflog – yn enwedig ymysg yr unigolion hynny o ardaloedd difreintiedig. Mae'r rheini sydd wedi gwneud prentisiaethau yn tueddu i fod yn fwy tebygol o fod mewn swydd, ac mae'n ymddangos bod prentisiaethau ar lefel uwch yn cynnig llawer mwy o fuddion i'r farchnad lafur. Mae tystiolaeth hefyd bod cymwysterau uwch yn arwain at waith a chyflog ar lefel uwch. Mae ein dadansoddiad economaidd-gymdeithasol yn dangos, rhwng y rhywiau, fod y bwlch rhwng lefel cyrhaeddiad addysgol a lefel cyflogaeth yn fwy i fenywod nag i ddynion.

Mae nifer yr aelwydydd sy'n gweithio ac yn wynebu tlodi mewn gwaith wedi cynyddu yng Nghymru, yn sgil twf isel o ran cyflogau yn ogystal â chynnydd mewn costau tai. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai cyfrannau eithaf bach o bobl sy'n llwyddo i symud ymlaen o swyddi sy'n talu'n wael, a bod y rheini sy'n methu gadael y cylch o swyddi sy'n talu'n wael yn fwy tebygol o fod yn fenywod, yn hŷn, yn gweithio'n rhan-amser ac yn gweithio ym maes gwasanaeth cwsmeriaid a gwerthu neu alwedigaethau elfennol.

Mae grwpiau allweddol, y mae'n ymddangos eu bod yn wynebu mwy o risg o dlodi, yn debygol o wynebu costau ychwanegol sy'n cael effaith anghymesur arnynt, er enghraifft, ym meysydd anabledd a gofal plant. Hefyd, mae tystiolaeth bod costau tai yn cyfrannu'n sylweddol at gyfraddau tlodi ymysg pobl ifanc, ac mae "premiwm tlodi" hefyd lle mae cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau yn costio mwy i aelwydydd tlotach[20]. Mae hyn yn creu cyfle i gefnogi cynlluniau fel undebau credyd, yswiriant cartref isel mewn cost drwy gymdeithasau tai, a chynlluniau newid cyflenwyr ynni ar y cyd.

### *Ein nod*

Mae ein *Cynllun Cyflogadwyedd* (Mawrth 2018) yn amlinellu'r uchelgais i helpu pobl i gael gwaith heddiw, a hefyd i baratoi'r gweithlu ar gyfer heriau'r dyfodol. Mae targedau 10 mlynedd wedi cael eu gosod i gynyddu lefel cynhyrchiant a chau'r bwlch â gweddill y DU o ran lefelau diweithdra, anweithgarwch economaidd, a lefelau cymwysterau. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan y Bil Partneriaeth Gymdeithasol (Cymru), a nodir mewn ymgynghoriad ar wahân diweddar, a *Gwaith Teg Cymru*, adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg. Rydym yn awyddus i helpu pobl i gael y sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen i fod yn rhan o weithlu cynhyrchiol mewn swyddi cynaliadwy o safon, sy'n sicrhau bod ein heconomi mor gystadleuol ag y bo modd yn y DU ac ar lefel ryngwladol.

Mae hyn yn galw am gydbwysedd gofalus rhwng parhau ag ymdrechion i gynyddu lefelau cyfranogiad yn y farchnad lafur yn ogystal â gwella ansawdd swyddi yn unol â'r diffiniadau o Waith Teg. Mae angen inni hefyd gynyddu lefel sgiliau a hyblygrwydd gweithluoedd, mynd i'r afael â thlodi mewn gwaith a lleihau'r anghydraddoldeb o ran gobaith i gael gwaith, yn enwedig i bobl sydd â nodweddion hil neu anabledd heb gynrychiolaeth ddigonol.

[20] http://www.appgpoverty.org.uk/poverty-premium/

*Yr amcanion strategol a gynigir*

1. **Gwella'r lefelau cyfranogiad yn y farchnad lafur i bobl mewn grwpiau lle mae'r bylchau mwyaf o ran lefelau gweithgarwch economaidd, yn enwedig i bobl anabl.**

2. **Cynyddu symudedd gweithluoedd presennol a'u gallu i addasu.**

3. **Gwella lefelau sgiliau a chyrhaeddiad yng Nghymru.**

4. **Lleihau costau hanfodol i bobl sydd ar incwm isel.**

5. **Lleihau'r anghysondeb mewn cyflogau yng nghyd-destun rhywedd, hil, a phobl ag anableddau.**

## Cefnogi'r broses o newid i economi di-garbon

Yr argyfwng hinsawdd yw her fyd-eang ein hoes ni. Mae'r risgiau'n real ac ar eu mwyaf i'n pobl fwyaf agored i niwed, ond bydd newid i economi di-garbon yn dwyn yn ei sgil gyfleoedd i sicrhau twf glân, swyddi o ansawdd a manteision yn y farchnad fyd-eang, yn ogystal â manteision i'n hamgylchedd, ein hiechyd, ein haer a'n dŵr.

### *Y sefyllfa ar hyn o bryd*

Mae Cymru eisoes yn y broses o newid, yn lleihau lefel ei hallyriadau ac yn datgloi cyfleoedd i sicrhau twf glân. Cyfanswm y trosiant a gynhyrchwyd gan fusnesau sy'n weithredol yn economi “Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy” yng Nghymru oedd £2.2 biliwn yn 2018, cynnydd o 15% o'i gymharu â 2017. Ar hyn o bryd, mae hanner yr ynni sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn ynni adnewyddadwy – chwarter yn fwy nag yn 2014. Tyrbinau gwynt y môr sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn. Mae Cymru hefyd yn cael ei hystyried yn arweinydd blaenllaw ym maes ymchwil a datblygu syniadau gwyrdd newydd. Daw allyriadau Cymru o bob math o ffynonellau, ond busnesau, tai, trafnidiaeth ac amaethyddiaeth sy'n eu hachosi'n bennaf.

### *Ein nod*

Rydym yn awyddus i adeiladu ar enw da a gallu Cymru i ymchwilio ac arloesi ym maes cynhyrchu ynni adnewyddadwy a'i gwneud yn haws i ynni adnewyddadwy gyrraedd y farchnad fel rhan o system ynni clyfar.

Ein hymrwymiad drwy *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel*[21] yw bod o leiaf 70% o'r defnydd o drydan yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu gan ynni adnewyddadwy erbyn 2030, gydag 1 GW o drydan adnewyddadwy o dan berchnogaeth leol erbyn 2030. Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau bod elfen o berchnogaeth leol i bob datblygiad ynni newydd yng Nghymru o 2020 ymlaen. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cymunedau'n cadw'r buddion a ddaw wrth newid i system ynni glanach. Rydym

---

[21] https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-cymru-carbon-isel-cymru

hefyd am helpu cymunedau i gael eu pweru, yn y tymor hir, gan gynllun ynni sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol fel rhan o system ynni hyblyg a chlyfar. Mae cadw'r cynhyrchu a'r buddion yn nes at y cymunedau yn helpu i sicrhau y bydd y broses o newid i economi di-garbon yn arloesol ac yn deg o safbwynt cymdeithasol, a bydd yn gwarchod gweithwyr a allai ddioddef yn sgil newid i'r economi newydd.

Erbyn 2030, rydym am leihau allyriadau teithio drwy gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio ac yn berchen ar gerbydau trydan, gwella mesurau effeithlonrwydd tanwydd, ac annog pobl i ddefnyddio dulliau mwy cynaliadwy o deithio. Rydym hefyd yn awyddus i fynd i'r afael ag allyriadau tai drwy newid ymddygiad, mesurau gwresogi carbon isel ac effeithlonrwydd ynni, ac effeithlonrwydd ynni ar ffermydd drwy gynyddu gorchudd coed, lleihau'r carbon a gollir drwy fawndiroedd, ac adeiladu storfeydd carbon o fewn biomas.

Mae'r amcanion isod yn dangos sut gallai buddsoddi rhanbarthol chwarae rôl bwysig i helpu i gyflawni'r nodau hyn, ac maent yn cyd-fynd â pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru.

***Yr amcanion strategol a gynigir***

1. **Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a chefnogi ymchwil, datblygiadau ac addysg berthnasol.**

2. **Gwella'r broses o newid i drafnidiaeth carbon isel.**

3. **Cefnogi cynlluniau tai ac adeiladu cyfalaf i leihau allyriadau.**

4. **Gwella bioamrywiaeth a dadwneud effeithiau allyriadau nwyon tŷ gwydr.**

5. **Datblygu'r sgiliau y bydd eu hangen ar y gweithlu yn y dyfodol ar gyfer datgarboneiddio.**

## Cymunedau iachach, tecach a mwy cynaliadwy

Mae gweithluoedd sy'n hapus ac yn iach, a chymunedau cryf, yn asedau economaidd sydd o fudd i bawb. Rydym yn awyddus i sicrhau bod cymunedau ar hyd a lled Cymru yn cynnig digon o gyfleoedd ac yn sicrhau llesiant er mwyn i'r bobl sy'n byw yma allu byw bywydau hir a hapus, a chyflawni eu potensial i wneud cyfraniad cynhyrchiol at ein heconomi a'n cymdeithas.

***Y sefyllfa ar hyn o bryd***

Ar ôl deg mlynedd o gyni, a degawdau o globaleiddio, mae llawer o gymunedau yn gweld pethau'n anodd. Mae canol trefi yn dioddef wrth i siopau gau, wrth i'r sector cyhoeddus grebachu ac yn sgil diffyg mewnfuddsoddi. Mae rhai'n dal yn methu cael gafael ar wasanaethau digidol. Mae amseroedd gwasanaethau trafnidiaeth yn gallu cyfyngu mynediad at ofal a thwf busnesau. Nid yw pawb yn cael yr un cyfle i gael blas ar wahanol ddiwylliannau a mathau o dreftadaeth yng Nghymru. Mae anghydraddoldeb economaidd yn arwain at anghydraddoldebau enfawr o ran

canlyniadau iechyd, gyda ffactorau fel anabledd ac iechyd meddwl yn dal yn bwysau cyson ar ddangosyddion economaidd.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae cymunedau yng Nghymru yn gallu bod yn fywiog, yn greadigol ac yn gadarn. Gallent gynnig llawer o gyfalaf dynol, a gwelir nifer o enghreifftiau o bobl leol a'r trydydd sector yn ehangach – ar y cyd ag eraill yn aml iawn – yn arwain y gwaith o ddiogelu'r amgylchedd, helpu'r rheini sydd mewn angen, trechu tlodi a chreu ffyniant. Yn ogystal â rhoi sylw i ddiffygion, rydym yn sylweddoli ei bod yn hollbwysig manteisio ar asedau a chyfleoedd sy'n gallu bod o fudd i gymuned, gan gynnwys cefnogi'r rheini sy'n gwneud hynny'n barod.

***Ein nod***

Rydym am alluogi cymunedau trefol, gwledig ac arfordirol i ganfod a datblygu atebion i'r rhwystrau cymdeithasol ac economaidd maent yn eu hwynebu er mwyn gallu ffynnu, i siapio eu lleoedd lleol er mwyn sbarduno cyfleoedd economaidd newydd, ac i ddatblygu iechyd meddwl ac iechyd corfforol. Rydym am weld mwy o fusnesau, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol yn y trydydd sector yn gyffredinol yn cynnal gweithgareddau ar y cyd â'r gymuned leol.

Wrth i'r maes manwerthu barhau i ddirywio, mae angen inni addasu canol ein trefi at ddibenion gwahanol ar sail cartrefi, swyddfeydd, hamdden, gwasanaethau a lle cymunedol. Drwy hyrwyddo gwell cysylltedd, gallwn leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau a sicrhau bod dinasyddion yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Rydym yn awyddus i gryfhau canol trefi drwy greu a chryfhau'r seilwaith cymdeithasol sydd ei angen er mwyn i gymunedau weithredu a bodoli fel y dylent, gan gynnwys y diwydiannau creadigol, sy'n hollbwysig i hyrwyddo ymdeimlad cryf o le a phobl. I wneud hynny bydd angen defnyddio lleoedd cymunedol yn well, datblygu asedau cymunedol newydd – yn enwedig seilwaith gwyrdd – a chysylltedd sydd wedi'i integreiddio'n well.

Rydym yn awyddus i bobl gael mynediad cyfartal at wasanaethau ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar y bobl fwyaf bregus yn arbennig. Rydym am wella mynediad at safleoedd diwylliant a threftadaeth er mwyn gwrthsefyll effeithiau a ddaw yn sgil teimlo'n ynysig, yn enwedig i bobl hŷn a phobl anabl.

Rydym hefyd am gynnig cyfleoedd economaidd cynaliadwy i bobl ifanc, gan sicrhau bod dyfodol cadarnhaol yn bosibl iddynt yn eu hardaloedd lleol – ni waeth ym mhle mae'r ardal na pha mor wledig yw hi – heb fod angen iddynt symud i ddinasoedd yng Nghymru a thu hwnt.

***Yr amcanion strategol a gynigir***

1. **Galluogi pobl mewn cymunedau ledled Cymru i ddod o hyd i atebion i broblemau cyffredin ar y cyd â phartneriaid cyflenwi, ac i rannu arferion gorau.**

2. **Lleihau anghydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau, nwyddau a gweithgareddau hamdden neu ddiwylliannol lleol i bobl ledled Cymru, yn enwedig lle mae'r angen mwyaf ymysg grwpiau bregus neu ymylol.**

**3. Gwella'r seilwaith cymdeithasol ac economaidd er mwyn hyrwyddo lleoedd gwledig a threfol sy'n gynaliadwy.**

**Cwestiwn 8: Beth yw eich barn chi am yr amcanion strategol a gynigir ar gyfer y pedwar maes blaenoriaeth buddsoddi? A ddylid ystyried amcanion eraill?**

**Cwestiwn 9: Pa ddangosyddion ydych chi'n meddwl y dylid eu defnyddio i fesur y cynnydd a wneir i gyflawni'r amcanion strategol a gynigir?**

## Rheolau Teg, Tryloyw a Chyson

Ein nod yw gosod rheolau cymesur sy’n symlach ac yn llai biwrocrataidd ar gyfer buddsoddiadau, gan sicrhau hefyd bod trefniadau llywodraethu addas ar waith ar gyfer gweithgareddau er mwyn rheoli adnoddau cyhoeddus yn effeithiol.

***Y sefyllfa ar hyn o bryd***

Mae’r rheolau a’r amodau presennol sy’n rheoli'r ffordd mae cyllid Ewropeaidd yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru yn cael eu pennu’n rhannol gan ddeddfwriaethau’r UE, ac yn rhannol gan reolau cenedlaethol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae rhanddeiliaid wedi galw am symleiddio prosesau, a’u gwneud yn gymesur i lefel y risg sy’n gysylltiedig â’r gweithgareddau dan sylw. Awgrymwyd hefyd bod set o egwyddorion gweithredu’n cael ei datblygu i sicrhau triniaeth deg a bod pawb yn cael yr un cyfle, er mwyn gofalu nad oes unrhyw gynulleidfa benodol (e.e. mentrau cymdeithasol bach, busnesau preifat), nac unrhyw ardal ddaearyddol sydd ar yr ymylon, o dan anfantais.

Un o’r elfennau lle gwelwyd llawer o lwyddiant ar draws yr UE yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac sy’n cael ei chefnogi gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, yw defnyddio offerynnau ariannol a chyllid ad-daladwy fel ymyriad allweddol ar lefel genedlaethol i gefnogi datblygu economaidd. Mae gan Gymru hanes llwyddiannus o ddefnyddio cyllid ad-daladwy (dyledion ac ecwiti) i sicrhau canlyniadau cadarnhaol, gan gadw safonau uchel o ran llywodraethu ac elw ar fuddsoddiad ar yr un pryd.

Un o elfennau pwysig y gwaith hwn yw cynnal asesiadau i weld ym mhle gellir defnyddio offerynnau ariannol, neu ymhle mae rôl grantiau (h.y. cyllid nad yw’n ad-daladwy) yn dal yn amlwg wrth ystyried tystiolaeth o fethiannau sylweddol yn y farchnad.

***Ein nod***

Bydd absenoldeb Rheoliadau’r UE yn newid sylweddol ynddo’i hun er mwyn sicrhau system fuddsoddi symlach. Er enghraifft, ni fydd rhai rheolau ac amodau – gan gynnwys gwahanu gweithgareddau ar lefel Cymru gyfan yn ardaloedd daearyddol gwahanol ac yn wahanol ffrydiau cyllid – yn orfodol mwyach.

Wrth symud ymlaen, rydym am gynllunio set o reolau sy’n adeiladu ar arferion gorau o ran symleiddio, cymesuredd, tryloywder a gwerth am arian, gan sicrhau llai o fiwrocratiaeth i’n partneriaid cyflenwi hefyd.

Yn ein barn ni, mae hefyd yn bwysig bod ein dull gweithredu yn cynnig set gyson o reolau i sicrhau bod penderfyniadau’n cael eu gwneud ar sail deg a chyfartal, ond eu bod yn ddigon hyblyg hefyd i ymateb yn briodol i risg a’u bod yn gallu ystyried anghenion, cryfderau a gwahaniaethau rhanbarthol.

Wrth ddatblygu’r dull gweithredu hwn, byddwn yn cyd-fynd â gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid grant, a byddwn hefyd yn ceisio diogelu ac adeiladu ar

reoliadau cyllid Ewropeaidd sy’n amlwg yn arferion da – er enghraifft, defnyddio cyfradd safonol a chostau uned.

Drwy ein dull gweithredu, rydym hefyd yn ceisio gwneud yn siŵr bod pwyslais cryfach o lawer ar sicrhau canlyniadau ac ar integreiddio cyllid a gweithgareddau’n well â meysydd polisi a buddsoddi ehangach. I gyflawni’r ymrwymiadau hyn, bydd angen i bartneriaid cyflenwi ymrwymo i gontract economaidd Llywodraeth Cymru ac i egwyddorion Gwaith Teg.

Yr arfer orau yn rhyngwladol yw arfarnu gweithgareddau gan ddefnyddio’r fethodoleg Gwell Achosion Busnes – fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau am fuddsoddiadau, ac mae’n seiliedig ar y Model Pum Achos. Mae’r dull hwn yn cael ei ddefnyddio’n barod ar gyfer buddsoddiadau Llywodraeth Cymru, a bydd angen ei adlewyrchu yn ein gwaith ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru yn y dyfodol. Byddwn yn ceisio sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn modd sy’n gymesur i risg, er mwyn inni gyflawni ein nodau creadigrwydd ac uchelgais yn ein buddsoddiadau.

**Cwestiwn 10: Beth yw eich barn chi am y dull gweithredu sy’n cael ei ddisgrifio uchod?**

## Gwerthuso a Dangos bod ein Canlyniadau'n cael eu Cyflawni

Ein nod yw creu system fonitro a gwerthuso effeithiol fel rhan o'n dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn unol â *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*, i sicrhau bod rhaglenni a pholisïau'n cael eu cyflawni'n effeithiol. Mae angen i'n trefniadau olynol ar gyfer buddsoddi rhanbarthol gynnal safonau uchel o ran polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a bod yn fwy cymesur ac addas i ofynion Cymru ar yr un pryd.

### *Y sefyllfa ar hyn o bryd*

Mae rheoliadau'r UE yn mynnu safonau uchel ar gyfer gweithgareddau monitro a gwerthuso ar lefelau rhaglenni a phrosiectau, er mwyn profi gwerth am arian ac effaith. Gan fod y rhain yn ofynion rheoliadol gan yr UE, mae'n bosibl defnyddio cyllid Ewropeaidd i gefnogi gweithgareddau monitro a gwerthuso. Mae gan Lywodraeth Cymru dîm o ddadansoddwyr ac ymchwilwyr proffesiynol, ac mae prosiectau hefyd yn defnyddio ymchwilwyr ac ymgynghorwyr i werthuso'n annibynnol ac i brofi'r cynnydd a'r effaith.

Mae'r adborth gan randdeiliaid (mae rhagor o fanylion ar gael yn y crynodeb o'r papur gwaith[22]) yn dangos cefnogaeth gref i gryfhau, monitro a gwerthuso yn y dyfodol, ond bod angen hefyd inni wneud ein systemau yn fwy cymesur.

### *Ein nod*

Rydym am i ymyriadau yn y dyfodol orfod bodloni gofynion monitro drwy set gyffredin o ddangosyddion y gellir eu rhoi ar waith ar draws ein fframwaith cenedlaethol. Ond, gallai rhanbarthau gynnwys dangosyddion ychwanegol ar gyfer cynlluniau penodol. Bydd y dangosyddion yn cyd-fynd â strwythur y broses o fesur y cynnydd a wneir i gyflawni'r nodau llesiant o dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*, ond ni fyddant yn defnyddio'r Dangosyddion Llesiant[23] i fesur cynnydd rhaglenni neu brosiectau unigol.

Dylid mabwysiadu prosesau monitro er mwyn gallu deall, ar unrhyw gam yn y broses gyflawni, pa gynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn dangosyddion y prosiect a'r rhaglen.

Dylai gweithgareddau gwerthuso roi dealltwriaeth o sut mae'r ymyriad yn cael ei roi ar waith, neu sut cafodd ei roi ar waith, beth oedd effeithiau'r ymyriad, ar bwy, sut a pham. Dylai gweithgareddau gwerthuso hefyd ystyried y gwahaniaeth tymor hir, a chymharu perfformiad y rhanbarthau â'i gilydd a gweddill y DU, ac ar draws Ewrop hefyd yn unol â safonau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

Mae ein cynigion ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yn cynnig cyfleoedd i elfennau sylweddol o weithgareddau monitro a gwerthuso gael eu cynnal ar lefelau rhanbarthol a lleol – mae hyn yn ddibynnol ar sicrhau gallu a chapasiti digonol yn y maes hwn.

---

[22] https://llyw.cymru/buddsoddi-rhanbarthol-cynigion-ar-gyfer-monitro-gwerthuso
[23] https://llyw.cymru/sut-mae-mesur-cynnydd-cenedl-dangosyddion-cenedlaethol

Rydym ni'n cynnig bod system gydgysylltiedig a chydweithredol o weithgareddau monitro a gwerthuso yn cael ei datblygu, ar lefel genedlaethol ac ar lefel rhanbarthol. Yn y sefyllfa hon, byddai gan bob rhanbarth ei dîm monitro a gwerthuso ei hun, a fydd yn penderfynu sut y dylid monitro a gwerthuso rhaglenni rhanbarthol a lleol, ac yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn cael eu cyflawni. Byddai rhai swyddogaethau strategol yn cael eu cadw ar y lefel genedlaethol, er mwyn helpu i bennu a goruchwylio'r gofynion monitro a gwerthuso ar gyfer rhaglenni a blaenoriaethau cenedlaethol.

Byddai'r gweithgareddau ar lefel genedlaethol hefyd yn cynnwys adolygiadau thematig a metawerthusiadau o'r holl weithgareddau monitro a gwerthuso a gynhaliwyd ar bob lefel drwy adolygu, dadansoddi, dwyn ynghyd ac adrodd am ganfyddiadau gwerthusiadau unigol. Er mwyn osgoi dyblygu a hybu cydweithio, byddai'r rôl genedlaethol yn cynnwys ychydig o waith goruchwylio a chyd-drefnu gweithgareddau er mwyn creu cyswllt â strwythurau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

I gyflawni hyn, bydd angen cyllid ac arbenigedd ar y lefel briodol ar gyfer monitro a gwerthuso. Bydd hyn yn cynnal ein dull presennol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd i ddatganoli mwy o gyfrifoldebau i'r rhanbarthau.

***Beth mae angen inni ei wneud***

**1.** Cynnal safonau uchel ar gyfer polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan greu system fonitro a gwerthuso fwy cymesur yn unol â *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*.

**2.** Sicrhau bod tystiolaeth gadarn yn cael ei chyflwyno ynghylch perfformiad y system buddsoddi rhanbarthol ar lefel prosiect unigol, thematig, rhanbarthol a chenedlaethol.

**3.** Sicrhau cydbwysedd rhwng dysgu ffurfiannol ac atebolrwydd.

**4.** Pan fo'n briodol, sefydlu set gyson o ddangosyddion y gellir eu defnyddio i gymharu ymyriadau ac ardaloedd daearyddol, ac sy'n cyd-fynd ag amcanion Llywodraeth Cymru.

**5.** Cynnal arferion gorau a hybu arloesedd wrth ddefnyddio dulliau gwerthuso.

**6.** Sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau yn cael eu rhannu ledled Cymru.

**Cwestiwn 11: A ddylid blaenoriaethu'r capasiti i gyflawni'r cynigion monitro a gwerthuso a nodir uchod?**

**Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig a amlinellir ar gyfer datblygu gweithgareddau monitro a gwerthuso ar lefel leol a rhanbarthol?**

## Proses yr ymgynghoriad a sut i ymateb

Rydym yn awyddus i glywed eich safbwyntiau chi. Rydym wedi sicrhau’n fwriadol bod y ddogfen ymgynghori hon yn fyr ac yn hwylus. Bydd eich safbwyntiau chi yn siapio’r camau y byddwn ni’n eu cymryd i gyflwyno Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol newydd ar gyfer Cymru.

**Cwestiwn 13: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch yr ymgynghoriad hwn i'w nodi.**

Mae ymatebion i ymgyngoriadau’n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai’n well gennych chi i’ch ymateb aros yn ddienw, rhowch wybod inni wrth ymateb drwy’r post neu dros e-bost, neu drwy roi tic yn y blwch priodol ar y ffurflen ar-lein.

Os ydych chi’n ymateb drwy’r post neu dros e-bost, cofiwch gynnwys eich enw, sefydliad (os yw’n berthnasol), rhif ffôn a chyfeiriad gyda’ch ymateb.

Mae’r ymgynghoriad hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae hefyd ar gael mewn fformat hawdd ei ddarllen sy’n cyfleu’r prif bwyntiau i’w hystyried er mwyn eich helpu i ymateb i’r ymgynghoriad.

Byddwn yn cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgynghori ar hyd a lled Cymru, ac ar gyfer gwahanol grwpiau (e.e. busnesau, dinasyddion, pobl ifanc a phobl â nodweddion gwarchodedig). Bydd cyfleoedd i gyfrannu ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd.

Hoffem glywed safbwyntiau cymaint o unigolion a sefydliadau â phosibl. Bydd eich ymatebion yn gwneud gwahaniaeth.

Ar ôl i’r ymgynghoriad ddod i ben, bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi’n annibynnol. Bydd adroddiad ar yr adborth yn cael ei gyhoeddi yn yr haf, cyn i’n fframwaith terfynol gael ei roi ar waith yn 2021.

# Geirfa

**Gweithgareddau:** Gweithgareddau a gynhelir gan un neu fwy o sefydliadau neu ranbarthau, ac y gellid eu cefnogi drwy fframwaith newydd ar gyfer buddsoddiadau economaidd rhanbarthol yng Nghymru.

**Cyd-bwyllgorau Corfforedig:** Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (a gyflwynwyd ar 18 Tachwedd 2019) yn darparu ar gyfer creu Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gefnogi gwaith rhanbarthol a chydweithio. Y bwriad yw y bydd y rhain yn cynnwys aelodau o'r awdurdodau lleol cyfansoddol i sicrhau atebolrwydd democrataidd, ac y byddant ar waith o fis Ebrill 2021 ymlaen. Bydd ganddynt allu cyfreithiol i reoli a dosbarthu cronfeydd.

**Gwaith trawsffiniol:** Gweithgareddau, prosiectau neu weithrediadau sydd ddim wedi'u cyfyngu i Gymru, ac sy'n ymestyn ar draws y ffin i gydweithio â chyfranogwyr yn y DU i sicrhau'r budd economaidd mwyaf posibl i Gymru.

**Contract Economaidd:** Contractau ar gyfer busnesau sy'n elwa o fuddsoddiadau Llywodraeth Cymru, fel y disgrifir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

**Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd:** Mae'r rhain yn ymwneud â Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yr UE, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r rhaglen Datblygu Gwledig, sy'n werth tua £375 miliwn y flwyddyn i Gymru.

**Gwaith Teg:** Mae gwaith teg yn golygu bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli'n deg. Mae'n golygu eu bod yn ddiogel ac yn gallu datblygu mewn amgylchedd iach, cynhwysol lle mae eu hawliau'n cael eu parchu.

**Yr Economi Sylfaenol:** Y gwasanaethau a'r cynnyrch sylfaenol sy'n ein cadw yn ddiogel ac yn waraidd. Y diwydiannau a'r cwmnïau sy'n bodoli oherwydd bod pobl yn gweithio ynddynt. Y bwyd rydym yn ei fwyta, y cartrefi rydym yn byw ynddynt, yr ynni rydym yn ei ddefnyddio a'r gofal rydym yn ei dderbyn.

**Prif ffrydio rhywedd:** Mae hyn yn ymwneud ag integreiddio persbectif rhywedd yn y gwaith o baratoi, cynllunio, gweithredu, monitro a gwerthuso polisïau, mesurau rheoleiddio a rhaglenni gwariant, gyda'r bwriad o hybu cydraddoldeb rhwng menywod a dynion a mynd i'r afael â gwahaniaethu (Sefydliad Cydraddoldeb Rhywiol Ewrop 2020).

**Themâu Llorweddol:** Egwyddorion craidd sy'n rhan o bob elfen o'r cronfeydd buddsoddi, sy'n berthnasol iddynt ac yn effeithio arnynt.

**Gwaith rhyngwladol:** Gweithgareddau, prosiectau neu weithrediadau sy'n denu buddsoddiad o wledydd y tu allan i'r DU er mwyn sicrhau'r budd economaidd mwyaf posibl i Gymru.

**Lefel leol:** Mae hyn yn golygu ar lefel y gymuned neu'r awdurdod lleol.

**Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:** Cynllun datblygu gan Lywodraeth Cymru sy'n dweud ymhle y dylem geisio datblygu, a'r mathau o ddatblygiadau sydd eu hangen

arnom dros yr 20 mlynedd nesaf er mwyn ein helpu i fod yn gymdeithas gynaliadwy a llewyrchus.

**Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol:** Bydd y Fframwaith hwn yn egluro beth rydym yn bwriadu ei ariannu, a'r canlyniadau rydym eisiau eu sicrhau drwy fuddsoddiadau economaidd rhanbarthol.

**Lefel genedlaethol:** Mae hyn yn golygu Cymru gyfan.

**Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd**: Sefydliad rhynglywodraethol blaenllaw sy'n adnabyddus yn rhyngwladol, ac sy'n gweithio gyda rhanbarthau i greu polisïau gwell i sicrhau bywydau gwell.

**Canlyniadau:** Y nodau llesiant ar gyfer Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. I sicrhau ein bod ni'n cyfrannu cymaint â phosibl at y nodau, bydd ein dull gweithredu'n canolbwyntio ar effaith y gweithgareddau a gefnogir gan fuddsoddiadau economaidd rhanbarthol.

**Allbynnau:** Y pethau sy'n cael eu cyflawni drwy weithgareddau, a fydd yn cyfrannu at y canlyniadau rydym yn dymuno eu gweld yn sgil buddsoddiadau economaidd rhanbarthol.

**Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol:** Bydd y Fframweithiau hyn yn diffinio blaenoriaethau o ran datblygu economaidd ar gyfer rhanbarthau Cymru. Bydd y rhain yn ddogfennau byw, ac mae Llywodraeth Cymru wrthi'n eu datblygu gyda phartneriaid ar hyn o bryd.

**Lefel ranbarthol:** Mae hyn yn golygu rhanbarthau Cymru fel y nodwyd yn y *Cynllun Gweithredu ar yr Economi*.

**Cyllid a ddaw yn lle arian Ewrop:** Y cronfeydd buddsoddi rhanbarthol rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU ddarparu cyllid yn eu lle yn llawn o 2021 ymlaen. Byddant yn cael eu hychwanegu at Grant Bloc Cymru er mwyn i Lywodraeth Cymru reoli'r cronfeydd hyn gyda phartneriaid yn unol â'n setliad datganoli.